YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirioned a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 7 GORFFENAF, 1924. PRIS, 3c.

CYNHWYSIAD.

ODDIAR Y TWR.
MEDDWL DROSOM EIN HUNAIN.
YSBRYDOLIAETH PAUL.
RHYDDID.
CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.
PRIODASAU.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Newydd ddod allan o'r Wasg.

"Cerddi Newydd Crwys"

Llian 3/6. Amlen Bapur 2/6. Cludiad 3c.

Anfoner am Gopiau i
SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

—AIL GASGLIAD O—

EMYNAU A THONAU

. . AT WASANAETH . .

Cymanfa Gerddorol Undodaidd Ceredigion.

Pris 9c., Amlen Bapur. Gellir cael Copiau wedi eu rhwymo mewn Llian—*Cloth Binding, 3s. 6c.*

Anfoner i Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] GORFFENAF, 1924. [CYF. XXIV. RHIF 7.

AR ADEN FFYDD.

FY HEN ATHRO.

Nid am ei fod yn gwisgo spectol ddim,
Na'i bod ychwaith, gan amlaf, ar ei dalcen,
Nid am ei fod mor frwd dros eirio'n blaen,
Ac yn awdurdod pendant ar yr acen.

Rhagoriaeth arall wnaeth fy athro i
Yn oracl mor beryglus o alluog,
Ef, ef yn unig o'r doctoriaid mawr,
Allai ddyfynnu o Joseffus enwog!

Fe gydnabyddai fod Geiriadur Charles
A Mathew Henri'n burion i bregethwr;
Ond nid oedd gwaith "cnoi cil" o ddarllen rhain—
Joseffus ydoedd porfa'r gwir feddyliwr.

'Doedd fymryn o wahaniaeth lle bai'r wers,
Doi goleu o Joseffus ar bob adnod,
A gellid meddwl mai esbonio gwaith
Joseffus ydoedd neges ambell bennod.

Ac yna, ar y diwedd, holi'r wers,
Ag ysgol gyfan mewn dyryswch, druan,
Hyd nes i athro'n dosbarth ni â'gair
O enau'r hen Joseffus setlo'r cyfan.

A dyna bawb yn tewi! nid oedd mwy
Ond canu'r gloch a choeddi rhif yr ysgol;
A chredwch fi, rwy'n dal i ofni'r gŵr
Fo'n berchen ar Joseffus—y ddwy gyfrol.

Allan o "Gerddi Newydd Crwys."

ODDIAR Y TWR.

UN o wirioneddau sylfaenol Efengyl Iesu yw Tadolaeth Duw. Gwirionedd sylfaenol arall yw—bod dynion yn feibion i Dduw; nid yn unig yn feibion i Dduw yn yr ystyr mai ef a'u creodd, ond hefyd yn yr ystyr iddo greu dyn ar ei ddelw ei hun, a bod mabolaeth uwch yn bosibl i bopdyn—y fabolaeth a dardd o fywyd mewn llwyr gytgord a'r Ewyllys Ddwyfol. I'r gofyniad—beth yw Cristionogaeth? felly, yr ateb (ateb digon cyflawn i bob diben ymarferol) yw—Tadolaeth Duw a mabolaeth dyn—y fath ar fabolaeth a welir yn Iesu.

* * *

Cwestiwn pwysig a awgrymir gan y deffiniad hwn ydyw—beth yw gwerth pennaf Iesu i'r byd dynol? Ai yn ei gymeriad fel athro y mae ei werth pennaf—yn y foesoldeb uchelryw a ddelir ganddo yn ei addysg ger bron y byd? Y mae yn athro mawr; saif ucheled yn y cymeriad hwn fel yr haedda ei gyfarch fel *yr athro*. Eithr nid yn ei gymeriad fel athro y mae ei werth pennaf; yn hytrach, yn yr amlygiad a ddyry inni o'r hyn sydd bosibl i ddyn. Fe ddatguddia Iesu ddyn iddo'i hun.

* * *

"Gwelwch pa fath gariad a roes y Tad arnom, fel y'n gelwir yn feibion i Dduw"; yna, "nid amlygwyd eto beth a fyddwn; eithr ni a wyddom . . . y byddwn gyffelyb iddo." Ni fedrwn blymio i ddirgelion tynged ddyfodol dyn; eithr fe'n bodlonir gan y sicrwydd "y byddwn gyffelyb iddo." Fe gyfyd hyn olwg dyn i fyny at rywbeth gwell, perffeithiach hwnnw wedi'i sylweddoli mewn bywyd dynol—ym mywyd Iesu o Nazareth.

* * *

Delfryd yw Iesu, felly inni—i'r byd; a bod yn gyffelyb iddo yw nod pennaf bywyd. Pan gyll dyn ei olwg ar y ddelfryd yn Iesu, ni feddylia mwyach am gylymu ei gerbyd wrth seren y ddynoliaeth berffeithiedig yng Nghrist; ac â trwy'r byd a'i olwg tuag i lawr—at y materol a'r diflannol, ac nid tuag i fyny—at yr ysbrydol berffaith a'r parhaol.

* * *

Deuaf, yn awr, at y cwestiwn oedd ar fy meddwl pan ddechreuais ysgrifennu—beth yw perigl pennaf dyn? a'r ateb yw—colli golwg ar y delfrydol; amddifadrwydd o weledigaeth eglur; gwneud duw o'r materol, a sarnu'r ysbrydol. Perigl y bu'r byd dynol erioed yn agored i syrthio iddo yw hwn. A dyna berigl arbennig ein dyddiau ni. Yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf (mwy neu lai) bu'r byd ymron cael ei foddi gan y dòn o fateroliaeth a ymdaenodd drosto. Plentyn y duedd at fateroliaeth a cholli golwg ar y delfrydol oedd y

rhyfel diweddar. Yr un duedd sy'n cyfrif mai Poincare fu'n brif-weinidog Ffrainc am y ddwy flynedd diweddaf; mai Mussolini sy'n brif weinidog yr Eidal; ac a berodd i Arglwydd Pen y Bircwy yn ddiweddar i wawdio pob math ar ddelfrydiaeth. Diangen yw dilyn y llinell hon ymhellach.

* * *

Cyn yr adferir y byd i rywfath o lwyddiant, rhaid rhoi terfyn i bethau o'r fath hyn, a rhoi i ddelfrydiaeth ei lle haeddiannol—y lle blaenaf. A dyna waith yr Eglwys (a gwaith yr Eglwys yw hyn, nid oes un sefydliad ond hi fedr ei wneud), sef, codi golwg y byd dynol at y ddelfryd yng Nghrist; dangos i ddyn mor gysegredig yw ei fywyd—gymaint yn uwch ydyw, gymaint yn uwch y gall fod, nag y tybir yn rhy gyffredin; dal i fyny fel "baner ar y mynydd uchel" (y fath ar ymadrodd awgrymiadol yw hwn) y gwirionedd fod dyn yn anferthol uwch na'r anifail, wedi'i fwriadu i dyfu ar ddelw ei grewr fel ei hamlygir yn y Pen-athraw; nad "diddanwch gwag, na phleser, ydyw diben mawr ein gwaith, ond ymroi fel caffo fory ni ymhellach ar ein taith."

* * *

"Lle ni byddo gweledigaeth eglur, marw a wna y bobl." "Nid ar fara yn unig y bydd byw dyn, ond ar bob gair a ddaw allan o enau Duw." Dyna genadwri Cristionogaeth Iesu—cenadwri o ddelfrydiaeth. A phan gyll dyn, neu genedl, neu wlad eu golwg arni, fe wyrant, neu nid hir fyddant cyn gwyro i lwybrau a dinystr ar eu terfyn.

* * *

Gwir yw hyn i gyd—yng ngeiriau Euclid, gwir hunan-dystiol. Cyfyd yr anhawster yn y troi o'r ddelfryd yn "ffaith." Er enghraifft, y ddelfryd Gristionogol parthed perthynas cenhedloedd a'i gilydd yw—heddwch. Eithr fynyched y gorfodir i dduwies heddwch guddio'i phen o gywilydd, o weld lleied o sylw a delir i'r ddelfryd. Prin hanner dwsin o flynyddoedd sydd er y dygwyd yr "alanas fawr" i derfyn; ac wele, y mae'r hollfyd eisioes yn brysur yn pentyrru arfau ar ben arfau. I ba ddiben, os nad ar gyfer y rhyfel nesaf? Beth am Gynghrair y Cenhedloedd? medd rhywun. Fe wna ei ore yn wyneb rhwystrau bron anorchfygadwy; eithr y mae cryn dipyn o wir yn ffordd y diweddar Arglwydd Morley o edrych ar y mater hwn. "gofynnais iddo," medd cyfaill, "beth feddyliai am Gynghrair y Cenhedloedd?" "Hudlewyrn, a hen un," oedd yr ateb. Pam hyn? Oblegid bod y byd dynol wedi ac yn anwybyddu'n ormodol, hyd yn oed wedi colli golwg ymron yn llwyr, ar y delfrydol.

* * *

Sefydliad bendithiol yw Cynghrair y Cenhedloedd, a haedda well cefnogaeth ymhob gwlad; eithr gwarogaeth y wefus yw'r warogaeth a delir iddo yn rhy aml. Heb farn gyhoeddus gref, unol, gyffredinol, tu cefn iddo, sefydliad hollol ddiallu i gyrraedd amcan ydyw; a

llawer rhy brin yw'r gefnogaeth a roddir iddo drwy'r hollfyd. Beth pe teimlid hanner y brwdfrydedd dros Gynghrair y Cenhedloedd ag a deimlir (dyweder) ynglyn a chicio'r bêl droed. Byddai rhyw sail i obeithio am lwyddiant y Cynghrair wed'yn.

* * *

Llawenydd i galon Cymro yw'r ffaith fod Cymru'n uchel ei safle, o'i chymharu â gwledydd eraill, yn ei chefnogaeth o'r Cynghrair. Pa ryfedd hyn pan gofiom mai Cymro—y diweddar Henry Richards—oedd gwir dad y mudiad; ac nid rhyfedd fod ei ysbryd wedi cael y fath feddiant ar y galon Gymreig. Cenedl yn caru heddwch yw'r genedl Gymreig. Gellid disgwyl gwell cefnogaeth i'r mudiad ar du'r eglwysi; oblegid dim ond uno bob pedair o eglwysi Cymreig o bob enwad ddarfu wrando ar yr apêl am gefnogaeth ariannol. Y mae galwadau ariannol yr eglwysi'n fawr a lluosog, mae'n wir; eithr son yr wyf am deilyngdod y mudiad o well cefnogaeth ariannol.

* * *

Tra'n son am heddwch a Chynghrair y Cenhedloedd, ni allaf ymatal rhag cyfeirio at y gofgolofn o farmor gwyn i Iesu ar gopa'r Andes—yr unig gofgolofn iddo (belled ag y gwn i) yn yr hollfyd. Pam y'i codwyd yno—ar ysmotyn mor anghysbell—copa un o fynyddoedd uchelaf y byd? Ychydig flynyddoedd yn ol bu anghydfod rhwng Argentina a Chile parthed y ffin rhwng y ddwy wlad; a phenderfynwyd trefnu'r mater yn unol ag ysbryd Efengyl Iesu—trwy gyflafareddiad. Arwydd o fuddugoliaeth Iesu, felly, yw'r gofgolofn. Y mae'n dystiolaeth o ragoriaeth yr ysbryd Cristionogol ar yr ysbryd a ffynna mewn materion o'r fath hyn yn gyffredin. Y wers yw—y talai'r ffordd i fod yn ffyddlon i'r ddelfryd Gristionogol yn holl gysylltiadau bywyd.

* * *

Yn holl gysylltiadau bywyd! Beth am fasnach? Arferid dyweyd, (a dywedir hynny eto'n weddol gyffredinol, yn ddiau) na ellir cario masnach ymlaen ar linellau'r bregeth ar y mynydd. Ystyr hyn yw—bod Cristionogaeth yn burion ond iddi gael ei chadw tu allan i fywyd beunyddiol dyn; mewn geiriau eraill, nad yw Cristionogaeth Iesu'n ymarferol; mewn geiriau eraill, eto, na ddylid talu gormod o sylw i ddelfrydiaeth Gristionogol mewn masnach. Ac nid amheuaf nad ymddygir yn rhy aml yn unol â'r olwg hon.

* * *

Amheuthun imi oedd darllen barn Arglwydd Leverhulme ar y mater hwn—barn hollol groes i'r un y cyfeiriwyd ati. Os oes rhywun yn gymwys i draethu barn ar unrhyw fater a ddeil berthynas â masnach, perchennog y *Sunlight Soap* yw hwnnw. Nis cofiaf ei eiriau, eithr eu sylwedd yw—nad yw'n bosibl cario un fasnach o faintioli'r eiddo ef ymlaen yn esmwyth a llwyddiannus ond yn unig

ar linellau'r bregeth ar y mynydd. Yn sicr, nid gwawdio delfrydiaeth, eithr ei dal i fyny fel peth i'w hedmygu a'i harfer, a wneir gan Arglwydd Leverhulme.

* * *

Dyma ddyfyniad o anerchiad un o weinidogion y Methodistiaid Cyntefig (*Primitive Methodists*): "Ni fu un gallu yn ystod y can' mlynedd diweddaf a ddylanwadodd yn fwy ar fywyd y rhannau gwledig o Loegr nag y gwnaeth enwad y Methodistiaid Cyntefig. Bu adeg pan ffynnai'r fath deimladau drwg rhwng pentref a phentref fel yr oedd yn beryglus i undyn i fynd o un pentref i'r llall. Gwn am bentrefi wedi ymarfogi yn erbyn ei gilydd. Cytunai'r pentrefwyr ar fan neilltuol i gydgwrdd, ac ymladdent a'i gilydd yn ffyrnig am oriau. Treulid diwedydd Sadyrnau a rhan fawr o'r Suliau mewn meddwi, ymladd ceiliogod, hapchwareuon o bob math, heb feddwl nac am Dduw nac am gadw'r Saboth, nac am bethau uwch bywyd. *Bu enwad y Methodistiaid Cyntefig yn foddion i gyfnewid hyn i gyd.*

* * *

Wrth y term Methodistiaid, yn Lloegr, fe olygir caulynwyr Wesley. O'r fam eglwys tyfodd amryw ganghennau, megis, y Cyfundeb Methodistiaid Newydd, y Methodistiaid Protestanaidd, yr Undeb Wesleyaidd Diwygiadol, y Cristionogion Beiblaidd, a'r Methodistiaid Cyntefig. Daeth yr olaf i fodolaeth yn ystod yr ugain mlynedd cyntaf o'r 19eg ganrif—tua'r flwyddyn 1810, yn gywir; cynhaliwyd y gynhadledd gyntaf yn 1820. Safle bresennol yr enwad yw—7275 o gapeli, 213,278 o aelodau, 1097 o weinidogion, a 13,701 o bregethwyr lleol, 4016 o ysgolion sul, 55,484 o athrawon, a 414,692 o ysgolheigion.

* * *

Darllened y darllenydd y dyfyniad uchod unwaith eto, a gofynned iddo'i hun—ai methiant ydyw enwad y gellir dwyn tystiolaeth o'r fath hyn i'w ddylanwad ar fywyd y werin? Ac nid yw hwn ond un enwad o gannoedd yn yr holl wlad. Gan nad pa ffaeleddau neu ddiffygion a berthyn i eglwysi ac enwadau (ac fe berthyn iddynt lawer, yn ddiameu, oblegid sefydliadau dynol ydynt, dynion a benywod amherffaith sy'n eu gwneud i fyny) hwy ydyw'r cyfryngau effeithiolaf (ni ddywedaf yr unig gyfryngau) i ddal delfrydau aruchel Efengyl Iesu o flaen y werin.

* * *

Deuaf i lawr o awyrgylch y delfrydol at fater arall, nid hollol ddiberthynas â'r delfrydol er hynny. Cyn mynd ymhellach, beth yw'r Gymraeg am *broadcasting?* Oes gair Cymraeg iddo? Gan sut y deuir allan o anhawster o'r fath hyn yn gyffredin—trwy ddefnyddio corff y gair Saesneg, ac ychwanegu'r terfyniad—o; felly, *broadcasto* (neu *broadcastio*) yw'r dull. Yr wyf yn awyddus i roi help i *broadcasto* (neu *broadcastio*) rhan o anerchiad a draddodwyd gan y Proff-

eswr Chance, Athro yn Ngholeg y Bedyddwyr yn Nghaerdydd, fel Llywydd Cynhadledd Cymdeithasau Ymdrechol Prydain Fawr. Dyma ddywedodd: "Yn ein beglwysi heddyw y mae gormod o ysbryd beirniadu a rhy fach o ysbryd cydweithredu, gormod o ysbryd chwilio beiau a rhy fach o ysbryd cyfeillachu, gormod o ysbryd enllibio a rhy fach o ysbryd brawdol. Un o achosion pennaf y diffyg cynnydd yn yr eglwysi yw'r absenoldeb gormodol o'r cariad na feddwl ddrwg, ond a lawenycha yn y gwirionedd. Cenfigennau, tafodau di-lywodraeth, tymherau anffrwynadwy, coegfalchedd (*snobbery*), ydynt rai o'r elfennau y rhoddir gormod o raff iddynt yn yr eglwysi."

* * *

Daw i'm cof imi ddarllen yn rhywle eiriau tebig i hyn yn disgrifio'r Eglwys Gristionogol gyntaf: "Ac yr oeddynt hwy oll yn gytun yn yr un lle . . . A hwy oll a lanwyd â'r Ysbryd Glân." Oes eisiau enwi'r wers?

SYLWEDYDD.

MEDDWL DROSOM EIN HUNAIN.

(Parhad o rhifyn Mai.)

Beth bynnag, mewn materion crefyddol, ymddengys i mi fod dynion yn fwy awyddus i feddwl drostynt eu hunain yn y dyddiau pan oedd gwaharddiad, nag ydynt heddyw gyda'u rhyddid. Faint ohonom ni, fel pleidwyr Cristionogaeth ryddfrydol, sydd wedi cymeryd trafferth i gloddio hyd at sylfeini moesol a chrefyddol Undodiaeth, a deall eu bod yn rhywbeth, nid yn unig i roi yn y "casgliad" tuag atynt, ond i fyw a gweithio drostynt, a dwyn ereill i wybodaeth ohonynt. Yr oedd y tadau, wrth bob hanes, yn ddynion o argyhoeddiadau cryfion, tra yr ydym ni yn dweyd yn wangalon nad oes llawer o wahaniaeth rhyngom a'r enwadau ereill. Os felly, gwell fyddai i ni fynd yn ol i'r Eglwys Wladol ar unwaith. Nid yw chwareu a rhyw *sentiment* gwamal o'r fath yna o un budd. Yn wir, y mae yn rhoi lle i fobl i amheu ein gonestrwydd fel coiff o grefyddwyr. Os nad oes gwahaniaeth rhyngom ag enwadau ereill, nid amhriodol fyddai i Gymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru, a phob Cymdeithas Undodaidd arall, drosglwyddo eu gwaddoliadau i Eglwys Rufain dyweder. Os ydym yn methu gwneud i fyny ein meddyliau ein hunain yng nghylch ein daliadau crefyddol, y mae'r Eglwys honno yn barod i wneud hynny drosom.

Y gwir am dani yw fod argyhoeddiad (*conviction*) wedi gwanhau yn ein mysg. Dyna'r drwg o'i bod hi'n esmwyth arnom yn Seion. Pe bae erledigaeth yn dod, efallai y deuem i wel'd wedi'n pa le yr ydym yn sefyll. Yr wyf yn gallu parchu dyn egwyddorol, pa mor groes bynnag yw ei gred i'm heiddo i. Y

dyn sydd i'w ffieiddio yw'r *opportunist* — y dyn heb unryw fath o argyhoeddiadau, yn barod bob amser i droi'r bluen i ateb y dwr.

Clywais am weinidog yn dweyd o'i bwlpud nad oedd ef erioed wedi teimlo fod rhyw lawer yng ngwaith yr awdur a adnabyddir wrth yr enw William Shakespeare. Y mae'n bosibl y byddwn yn barod i wenu'n gilwgus wrth glywed gosodiad o'r fath yna ; ond yr oedd y brawd yn onest, beth bynnag, o'i gymharu a'r brawd sydd yn canu clodydd Shakespeare heb ddarllen ei weithiau drwyddynt erioed. Y mae cuddio ein tlodi meddyliol odditan rhyw *platitudes* o'r fath yna yn beth mwy gwrthun nag anwybodaeth.

Paham, ynte, y cymhellaf ddynion i feddwl drostynt eu hunain? Am fy mod yn meddwl ac yn credu mai dyna'r unig ffordd y ceir Teyrnas Dduw ar y ddaear. Po fwyaf y bydd i ddynion feddwl drostynt eu hunain, cyntaf i gyd y deuant allan i Ffordd Fawr Gwirionedd. I'r graddau yr amlheir pobl o feddwl annibynol, yr ysgubir ymaith y drygau a'r llygriadau sy'n disgyn fel nifwl llaith ar gymdeithasau a chenhedloedd. Daw y caisariaid i'w gorseddau trwy fod pobl yn mynd yn rhy ddifater i feddwl drostynt eu hunain. Dyna gyfle y gormeswr. Y mae diogelwch cymdeithas, heddwch a ffyniant y byd, yn dibynnu ar nifer y meddylwyr annibynol.

Bydd raid i'r dyfodol ddewis rhwng cario egwyddorion y Diwygiad Protestanaidd i'r pwynt eithaf, neu fynd yn ol i Eglwys Rhufain. Nid oes *half-way house* rhwng Undodiaeth a'r Pab. Pan y byddaf fi wedi dod i deimlo nad oes llawer o wahaniaeth rhyngom a'r enwadau eraill, byddaf yn fodlon syrthio'n ol i fynwes Rhufain. Yn wir, ni fydd dim arall yn bosibl i mi.

D. CELLAN EVANS.

Northampton.

YSBRYDOLIAETH PAUL.

Beth yw natur ysbrydoliaeth Paul? A olyga anffaeledigrwydd? Os felly, nid oes dewisiad gennym lai na derbyn yr oll a ddywed, fel oddiwrth Dduw, hyd yn oed pan ymddengys yn croes-ddywedyd addysgiadau sylfaenol Iesu, neu ei addysgiadau ei hunan mewn mannau eraill. Ond, os yr edrychwn ar ei ysbrydoliaeth fel dylanwad i'w arwain i fyny at y gwirionedd uchaf, heb ladd rhyddid ei feddwl, dileu ar unwaith ei hen dybiau, ni a deimlwn ddiddordeb mawr mewn canfod sut y rhyddhawyd ef yn raddol gan amgylchiadau newydd a bywiol oddiwrth ei hen ragfarnau, a sut y tywyswyd ef i bob gwirionedd.

Beth, ynte, a feddyliwn wrth ysbrydoliaeth? Mae yna ddwy ffordd drwy y rhai y daw gwybodaeth i ddyn, oddi allan ac oddi mewn

Casgl un dosbarth o ddynion, a'r dosbarth lluosocaf eu gwybodaeth gan mwyaf oddi allan,—drwy sylwi, profiad bywyd, neu gymysgu a dynion a phethau. Tyfant felly mewn doethineb, gan ennill yn barhaus ryw wybodaeth newydd am natur a dyn, oddiwrth y byd o amgylch.

Ymddengys dosbarth arall o ddynion yn meddu ffynnon gwybodaeth oddi mewn ; llifa drychfeddyliau iddynt o ryw ffynhonnell guddiedig. Syrth llawer o'r dosbarth yma ar

ymyl y ffordd, a sethrir arnynt.

Ond weithiau daw dynion gydag ysbrydoliaeth mor nerthol fel y cluda hwynt ymlaen, er pob gwrthwynebiad, nes buddugoliaethu.

Mae ffaith hanfodol ysbrydoliaeth yr un yn yr oll o'r dynion hyn. Canlynant oleuni mewnol, syniad, argyhoeddiad yn eu heneidiau eu hunain Nid hwy wnaeth y syniad hyn; dyfod iddynt wnaeth. Aflonydda arnynt yn effro; cymysga a'u breuddwydion. Os ceisiant ddianc rhagddo, canlyna hwynt. Os llwyddant, gelwir hwynt yn benboethiaid ac ynfydion. Mae mathau a graddau ysbrydoliaeth yn amrywiol. Ysbrydoliaeth grefyddol yw'r uchaf o'r oll; ac uwchlaw pob math arall o ysbrydoliaeth grefyddol saif ysbrydoliaeth Gristionogol. Am bedair-canrif-ar-bymtheg a rhagor, cymdeithasodd y grefydd hon a phobpeth cynhyddol ac urddasol yn hanes y teulu dynol; a'r oll a etyb y gormeswr, ac a gysura y truenus.

Nid yw Cristionogaeth yn cyfyngu y dylanwad nefol hwn i unrhyw lwyth offeiriadol, i unrhyw bendefigaeth sanctaidd. Mae i bawb sydd a'i angen, ac a geisiant am dano Meddai Iesu, "Ceisiwch a chwi a gewch; curwch ac agorir i chwi."

Ac nid yw dylanwad yr Ysbryd Glan yn ddirgelwch, ond yn unig fel mae Natur yn ddirgelwch, fel mae'r enaid dynol yn ddirgelwch, fel mae bywyd planhigion yn ddirgelwch; ond cyn gynted ag y dechreua bywyd, daw o dan ddeddf a daro'n rhan o drefn fawr. Mae dirgelwch gan hynny'n rhan a Natur, ac nid yw credu mewn dirgelwch yn ymyrru ag ymarferiad defnyddioldeb allanol.

Ni chymerai ysbrydegiaeth yr Apostolion hwynt i mewn i fywyd. Nid penboethiaid anymarferol na breuddwydwyr oeddynt. Hwynthwy oeddynt y dynion mwyaf ymarferol yn yr Ymerodraeth Rufeinig, oherwydd yr oedd ganddynt y gwaith mwyaf i'w wneud, a gwnaent ef a'u holl egni.

Doi'r Ysbryd Sanctaidd i bawb a thrigai ym mhawb yn yr Eglwys Apostolaidd. Nid duwioldeb perthynol i'r ychydig oedd; ni wnai lywodraeth gan ychydig seintiau, ond gwnai seintiau o'r holl goff. Ni ddysgai athrawiaeth etholedigaeth y dewisid rhai i fod yn seintiau, ac yr esgeulusid eraill. Ond, dysgai fod Duw wedi eu dewis *hwynt oll*,—pawb y daethai ei air ef atynt,—i ddyfod ei blant a derbyn ei ddylanwad. Yr oedd yr Ysbryd Sanctaidd ym mhob calon, i wneud brawdoliaeth gyffredinol, i'w huno hwynt oll yn rhwymau cydymdeimlad ac ewyllys da.

Yn y dechreuad, hon oedd yr ysbrydoliaeth gyffredin i'r holl Gristionogion. Rhoddai i bawb ohonynt ffydd, gobaith, cariad, dewrder, amynedd, ymostyngiad; rhoddai iddynt dangnefedd ynghanol stormydd, llawenydd ynghanol treialon bywyd yn awr angeu. Bywyd oedd oddi mewn i'r enaid, yn gwneud popeth yn newydd. Ond cymerai'r ysbrydoliaeth hon ffurf wahanol ym mhob dyn, yn ol ei athrylith a'i gymeriad. Ymddengys y gwahaniaethau hyn yn epistolau pob ysgrifennydd. Yn cytuno mewn hanfodion, pob un yn caru a gwasanaethu Crist,—dysg pob un Gristionogaeth yn ei ffordd ei hun. Deddf rhyddid yw deddf bywyd ysbrydol yng Nghrist; a lle mae Ysbryd yr Arglwydd yno mae rhyddid. Mae ysbrydoliaeth pob un yn dwyshau ei holl alluoedd, ond nid yw'n dinystrio ei unigoliaeth.

Nid yw ysbrydoliaeth Paul, Petr, neu Iago yn gynnwysedig yn ei fod yn dywedyd pethau na ddywedwyd erioed o'r blaen. Pan oedd Socrates ar farw, sylwodd un o'i gyfeillion mai'r hyn oedd galed ynghylch y peth oedd, y poenid ef mor anghyfiawn; ar hyn atebodd Socrates, medd hanes:—"Beth! A ddewisech chwi'n hytrach i mi ddioddef yn haeddiannol am rhyw drosedd?" Dywed Petr yr un peth:—"Canys gwell ydyw, os ewyllys Duw a'i myn, i chwi ddioddef yn gwneuthur daioni, nag yn gwneuthur drygioni." Ambell waith, traetha eneidiau deth-

oledig y ddaear eiriau a berarogla ac a geidw y byd mewn coffadwriaeth anfarwol. Ond yma mae Petr, Iago, ac Ioan, heb ddim yn nodedig ynddynt ar y dechreu, wedi eu galw o'u cychod i ddyfod yn athrawon dynolryw ; gad pob un o honynt ryw ysgrifen yn cynnwys testynau meddwl, ymadroddion ym myn'd i lawr yn ddwfn i brofiad dynol, apeliadau aruchel at beth bynnag sydd fwyaf urddasol yn yr enaid. Mae'n rhaid fod rhyw ddylanwad, rhyw ysbrydoliaeth gyffredin, wedi gweithredu arnynt oll i dynnu allan o'u calonnau y fath gerddoriaeth gysegredig.

Y dylanwad oedd hon, medd Paul : "Eithr nyni oll ag wyneb agored, yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd megis mewn drych, a newidir i'r unrhyw ddelw, o ogoniant i ogoniant, megis gan ysbryd yr Arglwydd."

Mae yna ffaith hynod arall ynghylch ysbrydoliaeth ysgrifenwyr y Testament Newydd. Ni ddysgasant inni unrhyw gyfundrefn ; nid oedd ganddynt gredo gyffredin, mae pob un yn unigol, a chanddo ei ffordd wreiddiol ei hunan o feddwl ac ysgrifennu ; ac eto mae yna gytgord bywiol mewn barn yn eu plith hwynt oll.

Ac yn eu plith hwynt oll saif Paul yn amlwg am gyfoeth meddwl. Rheda drosodd o orlawnder drychfeddyliau. Mae ganddo amrywiaeth bron diderfyn, fel y gwelir wrth ddarllen ei wahanol Epistolau,—yn un ymresyma'n fanol,—yn y llall gyda diglloned angerddol neu lymder trist,—drachefn tyr allan mewn iaith nerthol hyawdledd teimladwy, o apel dyner a serch gwresog, yna esgyna i ryw uchelfan lle caiff olwg glir ar fuddugoliaeth a gogoniant dweddaf gwirionedd Cristionogol. O'r uchelfan hwn disgynna drachefn i roddi cyngor gofalus mewn materion ymarferol,—ynghylch myn'd i gyfraith, priodas, bwyta, ac ymatal oddiwrth fwydydd neilltuol, &c. Unwaith eto, yng nghanol yr holl faterion ymarferol hyn, esgynna'n sydyn i fyny i nefoedd uchelaf gweledigaeth ddwyfol, a chân hymn seraffaidd i gariad. Yr oll hyn, a llawer yn rhagor, mewn un llythyr i Corinth.

Sylwer hefyd fod Paul yn feddiannol ar rinweddau nas ceir ond anfynych mewn undeb a'u gilydd, brwdfrydedd angerddol, gydag haelfrydedd mawr, argyhoeddiad di-ildio ac amcan anhyblyg,—nid yw'n gulfarn. Dioddef drosodd a throsodd drachefn artaith greulon y ffrewyll a'r wialen yn hytrach na rhoddi cam yn ol, na rhoddi fynny un ran o'r gwirionedd. Eto mewn pob mater di-bwys rhy'r ffordd ; gorchymyn ufudd-dod i'r Llywodraeth Rufeinig ; cymell hwynt i dalu trethi ac i ufuddhau y cyfreithiau, a dylid gwneyd hyn, medd ef, nid yn unig oddiar ofn cosb, ond fel dyledswydd grefyddol. Medd ef : "Nid yw enwaediad na dienwaediad yn ddim,"—ufuddhau deddfau Duw yw pobpeth. "Nid yw Teyrnas Dduw fwyd a diod, ond cyfiawnder, tangnefedd, a llawenydd yn yr Ysbryd Glan." Ac nid ydym i farnu ein gilydd mewn pethau cymharol ddibwys. Nid arnom ni mae penderfynu rhwng cydwybod dyn a Duw. Safwn oll ar bob munud o flaen gorsedd barn uwch na gorsedd barn dyn. Gofynnai Paul, gan hynny, gan ddilyn Crist, ar i bob enaid sefyll ar ei ben ei hun gerbron Duw, a phenderfynu a gweithredu trosto ei hunan.

Ond nid yw athrawiaeth am farn a rhyddid personol yn cau allan undeb, brawdgarwch, a chydweithrediad agos, a chyson. Yr ydym oll, medd ef, yn aelodau o un corff. Os dioddef un aelod, dioddefant oll ; os llwydda un, llwyddant oll. Rhy Duw i bob dyn rodd ar wahan, yr eiddo ei hun yn llwyr, eto mae ef i'w defnyddio er lles y cyffredin. Byddai Paul yn hoff o'r gymhariaeth hon, ac arferai hi'n aml.

Ffynnon ac hanfod yr ysbrydoliaeth hon oedd golwg fewnol ar Grist yn ei wir gymeriad. Cafodd y syniad hwnnw'n meddwl Iesu a'i gwnaeth ef y gwir Grist. Ac ysbrydoliaeth hanfodol Cristionogion

oedd caffael Efengyl eu Hathraw wedi ei gweud yn argyhoeddiad byw'n eu heneidiau, fel y byddai i'r gwirioneddau cynnwysedig ynddi gaffael eu dwyn allan i ymarferiad. Yr oedd i gaffael ei dangos iddynt. Golwg fewnol oedd o gariad Tadol fel ei gwelid gan Iesu. Golwg fewnol o'r fath yma yw pob ysbrydoliaeth. Nid yw ysbrydoliaeth yn anffaeledig. Mae'r hyn a welwn yn gyfyngedig oherwydd byrdra ein golygon, a'n hadroddiad ohono'n aneglur oherwydd prinder iaith. Ac nid yw'n sefydlog, ond cynhydda ; gan y deuwn i weled mwy a mwy o wirionedd, a'i weled yn ddyfnach a llawnach. Ac nid goleuni sych yw ; dealltwriaeth yw wedi ei drwytho mewn serch, ac yn llifo allan mewn gweithred.

(*Pw barhau*).

C. C.

RHYDDID.

Anerchiad draddodwyd gan Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., Aberystwyth, yng Nghiliau, Ebrill 23, 1924.

[PARHAD O RIFYN MEHEFIN.]

Gwedd sydd yn gofyn mwy o sylw heddyw nag un o'r rhai a nodwyd ydyw rhyddid moesol ac ysbrydol. Y mae'n bwysicach am fod rhyddid personol a chymdeithasol a rhyddid i addoli wedi eu sicrhau yn eu cyflawnder ac am fod a fynno rhyddid moesol a bywyd beunyddiol pob dyn ymhob gwedd arno. Y gwrthgyferbyniad sydd yn yr adnod a ddyfynnwyd ar y dechreu ydyw—(1) Caethiwed llygredigaeth, a (2) Rhyddid. Pechod a gaethiwa ; daioni a ryddha.

Y mae bywyd moesol yr eglwysi wedi bod ar adegau yn ddwysach nag ar adegau eraill, ac y mae lle i ofni fod llawer o laesder wedi cripio i mewn yn llechwraidd i'r eglwysi oddiar y rhyfel mawr, ac y mae'n bryd i ni fel Cristionogion proffesedig i sylweddoli hynny, ac i wneud tipyn o *stock-taking*. Nid ffurfiau ydyw crefydd, nid proffes, ac oddigerth i'n crefydd adlewyrchu ei hun mewn bywydau yn llawn daioni y mae fel efydd yn seinio neu symbal yn tincian. Peth gwaeth nag ofer ydyw proffes heb i'r bywyd gydweddu a'r broffes.

Ni all yr eglwysi Cristionogol ddylanwadu ar y byd er daioni heb eu bod o ddifrif i ddyrchafu gwirionedd a chyfiawnder, heb iddynt bwysleisio yn eu bywyd ymarferol rinweddau a gwirioneddau sylfaenol crefydd Crist. Dyna'r unig ffordd effeithiol i ddyrchafu moesoldeb.

Ni allai neb ond cyfaill i Iesu ei fradychu, a Judas ei ddisgybl a wnaeth. Cyfeillgarwch oedd sylfaen y bradychiad. Felly, heddyw y perygl mawr ydyw i gyfeillion proffesedig Crist ei fradychu. Gall Cristionogion unigol ac eglwysi groeshoelio Crist yn fwy effeithiol nag y gall neb arall wneud. Gall bradwr yn y fyddin fod yn fwy o berygl na'r gelyn ei hun.

Os nad yw'r eglwysi yn cario cymaint o ddylanwad ag a ddylent ymhlith y werin bobl ofnaf mai dangoseg ydyw hynny fod bywyd moesol Cristionogion yn ddiffygiol. Chwi gytunwch a mi nad oes diben yn y byd i gelu'r ffaith anwadadwy. Deffroed Cristionogion i sylweddoliad o'u cyfrifoldeb moesol a cheir ychwanegiad uniongyrchol yn nylan-

wad a gallu'r eglwys er daioni yn y byd. Y mae'r byd yn awr yn drwgdybio'r eglwys. Nid oes dim allan o le yn y syniad o eglwys nac yn nelfrydau'r eglwys fel eu mynegwyd hwy gan Iesu. Lle collir grym ydyw ym methiant eglwysi i weithredu eu delfrydau.

Un peth a welir yn amlwg ydyw fod dynion yn colli gafael yn y syniad o gyfrifoldeb personol. Y mae dyn yn fod rhesymol, cyfrifol am ei holl weithrediadau i'w greawdwr; dyna sydd yn ei wneud yn fod moesol.

Mewn *theory* nid yw'r eglwys bellach yn gwadu cyfrifoldeb personol, ond y mae cymdeithas yn dra chyffredin yn gwneud.

Tuedd pob dosparth o ddynion y dyddiau hyn ydyw ffurfio eu hunain yn Undebau—*Unions*—lle nad ydyw dyn at ei ryddid i wneud a fyn neu a gred sydd iawn. Cymerwch, er engraifft, gynhyrchwyr rhyw nwydd yn cytuno i werthu'r nwydd hwnnw am bris afresymol. Nid ydyw hynny yn cyfiawnhau'r weithred i neb sydd yn credu fod y pris yn uwch nag y dylai fod. Y mae pob aelod o'r Undeb yn fod cyfrifol. Gellir condemnio yn yr un modd weithwyr sydd yn gomedd gwneud eu rhan deg yn gyfnewid am eu hiriau.

Y gwir ydyw fod cyfryngau da yn cael eu camddefnyddio. Nid oes dim i'w ddweyd yn erbyn dynion yn uno i ymladd dros eu hiawnderau. Gall hynny fod yn rheidiol. Y peth ydyw fod perygl mawr i ddynion wrth ymladd am eu hawliau golli golwg ar eu cyfrifoldeb. Y mae pob hawl yn cario ganddo rwymedigaeth foesol. Y mae'n hen bryd i ni sylweddoli'r gwirionedd pwysig hwn. Ni thâl ei anwybyddu, ac os gwnein rhaid talu'n ddrud am hynny. Nis gellir gwneud hynny ond ar draul y bywyd moesol—ar draul gwerthu'r enaid.

Y mae'n adeg gymwys iawn i bwysleisio'r gwirionedd. Ni fu erioed gymaint o gythrwfl ym myd masnach a llafur ag sydd heddyw. Paham hynny? Yn bennaf am fod meistr a gwas—y naill fel y llall—yn ymladd am eu hawliau ac yn anghofio eu cyfrifoldeb y naill i'w gilydd. Nid oes ychwaith ond ychydig o obaith gwell hyd nes y dygir i faes yr ymrafael fwy o yspryd efengyl Crist fel y bo meistr a gweithiwr yn cydnabod iawnderau eu gilydd. Gellir, fe ddichon, wneud rhywbeth i sicrhau iawnderau drwy ddeddfau gwladol, ond gorfodaeth y ddeddf foesol yn unig a ddwg ymwared llwyr o'r anghydfod a'r anghyfiawnder presennol.

Y gwirionedd noeth ydyw fod eglwys Dduw wedi myned yn eglwys fydol. Y mae'r bydolrwydd eithafol hwn yn crebachu'r enaid, yn nychu bywyd moesol yr eglwys, yn tynnu llen dros lygaid yr ysbryd nes ei ddallu rhag gweled y ddyledswydd agos. Dyma wyfyn a rhwd sydd yn llygru ac yn tynnu'n llechwraidd o dan sail dylanwad eglwys y Duw byw. Y mae'n rhwymo ac yn caethiwo'r enaid, ac yn ei rwystro i fyned i mewn i ryddid gogoneddus plant Duw.

Y mae dynion wedi myned mor gaeth i wasanaeth Mamon, yn brwydro'n barhaus am bethau'r byd hwn nes colli golwg i fesur helaeth ar y lluaws cyfleusterau dyddiol i helpu'r gwan a'r anghennus, a cholli'r pleser gwynfydedig sydd yn etifeddiaeth plant Duw, yn yr ymdrech druenus am fanteision ymddangosiadol a thymhorol. Beiddiaf ddweyd yn ddios ein bod yn colli'r goreu a ddarparodd Duw i enaid dyn drwy ein materoliaeth. Ai nid oes cof gan bawb o honnom am ddynion tylodion yng ngolwg y byd oedd yn anfeidrol gyfoethocach na lluaws a feddent bentwr o aur? Y mae dyn wedi ei drefnu i bethau uwch na dim ond casglu'r byd.

Nid oes dim yn fwy truenus na gweled pobl yn ysgaru masnach a pholitics, h.y., eu bywyd beunyddiol, oddiwrth grefydd. Gresyn ydyw clywed pobl oleuedig yn son am *bolitics* fel *game*. Yn ddiameu, fel y mae pethau, y mae yna lawer o gyfiawnhad i'r syniad. Nid dyna ddylai *politics* fod. Nis gwn am well deffin-

iad nag eiddo'r diweddar burchus Dr. John Clifford yr hwn a ddywedai mai "*Practical Christianity*" oedd *politics* "*or at least ought to be.*" Amcan *politics* fel amcan yr efengyl ei hun ydyw dyrchafu dyn yn holl weddau ei fywyd, ei ryddhau o gadwynau angen, anhegwch ac afiechyd, codi ei fywyd moesol, ei waredu o gaethiwed llygredigaeth a'i ddwyn i ryddid gogoniant plant Duw.

Y mae yna luaws o agweddau eraill ar fywyd y carwn gyfeirio atynt ond cyfyngaf fy sylwadau i un peth yn unig. Yr ydwyf yn cyfeirio at yr ysbryd rhyfela sydd yn y byd.

Yn 1914, agorwyd cyflafan na fu ei bath erioed o'r blaen. Dyna'r rhyfel oedd i derfynu rhyfel am byth meddai pobl. Eto i gyd beth a olygodd y rhyfel hwn i ni fel gwlad? Rhwng Ebrill 1, 1914, a Mawrth 31, 1919, gwariodd y wlad hon ar ryfel £9,590,000,000. Heblaw hyn, rhwng Awst 1, 1914, a Mawrth 31, 1923, gwariodd £470,000,000 ar bensions. Ymhellach gwariwyd miliynau afrifed eraill ar bethau cysylltiedig a'r rhyfel. Collodd yr Ymerodraeth Brydeinig yn unig 946,023 o fywydau, a chlwyfwyd 11,378,703 o'u dynion yn ychwanegol. Y mae'r ffigyrau hyn yn anhygoel bron ac yn parlysu'r dychymyg.

Y pwnc ydyw a ydym fel Cristionogion proffesedig wedi dysgu'r wers ac yn gwneud rhywbeth i sicrhau na ddigwydd dim cyffelyb eto? Neu a ydyw ein materoliaeth wedi ein llygru nes ein dallu i gysegredigrwydd y bywyd dynol?

Gadewch i ni holi. Yn 1913–14 yr oedd yr *estimates* ar fyddin a llynges Prydain Fawr yn £77,225,300, ond yn 1923–24 sylwer fod yr amcangyfrif o'r treuliau yn £110,000,000—ychwanegiad o 32 o filiynau. Nid ydyw'r symiau hyn yn cynnwys traul byddinoedd yr awyr, ac y mae'r olaf wedi cynhyddu'n fawr yn ystod y blynyddoedd diweddaf. Disgwylid am welliant yn y mater hwn oddiwrth y Weinyddiaeth Lafur ond siomedigaeth druenus i'r sawl o honnom a hyderai y ceid lleihad mawr yn offerynau dinystr oedd gweled y werin-lywodraeth hon yn tybied fod angen am bump o longau rhyfel mawrion newydd yn meddu'r peiriannau lladd diweddaraf ac yn penderfynu eu hadeiladu.

Rhyfela a darpar am ryfel ydyw un o'r cyfryngau cryfaf i gadw'r ddynoliaeth yn rhwym wrth y nwydau iselaf, yng nghaethiwed llygredigaeth, ac i'w rhwystro i etifeddu rhyddid gogoniant plant Duw. Mae'n bryd i'r eglwys ddeffro drwy'r holl fyd. Mae'n rhaid iddi feddwl heddwch a byw heddwch. Dyna'r unig ffordd i sicrhau heddwch. Y mae'r hen syniad mai meddwl rhyfel a darparu ar gyfer rhyfel ydyw'r ffordd effeithiolaf i rwystro rhyfel wedi ei chwythu'n ddeilchion, ac y mae'n rhaid i ni wrth agweddiad newydd. Gadewch i ni dreio ffordd arall.

Y mae'n rhy anhawdd cysoni rhyfel ymosodol ag egwyddorion efengyl Iesu a'n dyledswydd amlwg fel Cristionogion proffesedig ydyw taflu ein holl ddylanwad yn erbyn y ffieiddbeth a'r barbareidd-dra hwn. Gadewch i mi geisio gennych fel aelodau eglwysig i ymuno'n dyrfa fawr wrthwynebol i bob syniad am ryfel, ac i uno holl alluoedd dyrchafol eglwys Dduw i wneud diwedd y ganrif yn ddiogelach na'i dechreu. Dyna'r unig ffordd i etifeddu'n helaeth ryddid gogoniant plant Duw. Nis gall dyn nac eglwys wneud gwell gwaith na sicrhau'r byd rhag perygl a phryder yr erchyllbeth ofnadwy rhyfel. Os na wnawn ar rieni'r oes hon y gorwedd gwaed eu plant. Gwneled Duw ni'n effro i'n dyledswydd fawr.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Cynhaliodd y gymdeithas ei chyfarfodydd y Pasc yn Capel Ciliau Aeron nos Fawrth a dydd Mercher, yr 22ain a'r 23ain o Ebrill.

Pregethwyd nos Fawrth gan y Parch. T. A. Thomas, Llandyssul. Bore Mercher cafwyd anerchiad amserol ac adeiladol iawn ar "Y Plentyn," gan Mrs. Z. Cledlyn Davies, Cwrtnewydd. Ar ei hol pregethwyd gan y Parch. Dr. W. Griffiths, Aberystwyth. Yn y prynhawn cafwyd anerchiad galluog arall gan Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., Aberystwyth, ar "Ryddid," yn seiliedig ar Rhuf. viii. 19 Teimlai pawb ag oedd yn bresenol mai ffordd galed oedd Ffordd y Tadau, eto dyma'r Ffordd y bu raid iddynt ei cherdded fel ag i ni fwynhau y breintiau mawrion a godidog ag sydd heddyw yn ein meddiant. Yr ydym wedi myned i fewn i lafur yr hen fforddolion, ac ychydig iawn o honom sydd yn sylweddoli hyn. Os ydym fel dinasyddion yn weddol rydd, nid yw hyn yn tybied ein bod yn rhydd i wneyd fel ag y mynom hyd yn oed a ni ein hunain. Amserol oedd cael ein hadgofio fod yna ryddid uwch, ac mae sylweddoliad o hwn fel ag y gwnawn ei ennill i ni ein hunain sydd wedi'r oll yn ein gwneud yn rhydd yn ngwir ystyr y gair, a dyma orchwyl y dyfodol—gwneud y moesol a'r ysprydol yn seiliau bywyd a phrofiad, ac yn y goleuni hyn i ganfod ein hunain yn wir aelodau o gymdeithas. Fel y cofiwn, fe'n hadgofiwyd fod yna y fath sefydliad yn bod a'r "League of Nations." Yn awr ar ol y penderfyniadau ag sydd wedi eu pasio o bryd i bryd yn ein cymdeithas ni, beth sydd wedi ei wneud? Dim yn y byd, a phe byddai rhyfel yn cael ei gyhoeddi yr wythnos nesaf, y tebygolrwydd yw y byddai rhai ag sydd wedi bod yn siarad ar y "League of Nations" yn enlistio fel "recruiting officers."

Ar ol yr anerchiad pregethwyd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr.

Yn yr hwyr pregethwyd gan y Parchn. E. R. Dennis, Aberdar, ac E. O. Jenkins, Llwynhydowen.

Cafwyd cyfarfodydd ardderchog iawn, a theimlwn ni yn y Ciliau yn wir ddiolchgar am y fath gyfarfodydd. Tywydd ffafriol, cyfarfodydd lluosog, a phregethau ac anerchiadau galluog, o chwaeth iach, ac o safon wir uchel. Sicr yw na wnawn anghofio y genadwri yn fuan. Wrth wrandaw ar y pregethau a'r annerchiadau hyn, teimlem y gallwn fel enwad edrych ymlaen i'r dyfodol yn wir galonog.

Diolch i bawb am eu presenoldeb, ac i bawb a gymerodd ran, fel ag i wneud y cyfarfodydd yn rhai llwyddianus a hyfryd.

PWYLLGOR Y PASC.

Cynhaliwyd yr uchod yn Nghiliau bore Mercher, Ebrill 23ain, o dan lywyddiaeth y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr. Wedi darllen a chadarnhau cofnodion y pwyllgor blaenorol, pasiwyd y penderfyniadau canlynol:—1. Fod y Parch. D. G. Rees a Mrs Rees, Trebanos, i gynrychioli y Gymdeithas yn nghyfarfodydd blynyddol y G.U.F. a Thramor. 2. Fod "grant" o £6 yn cael ei gwneud o gronfa gynnorthwyol y myfyrwyr i ddyn ieuanc o Gaerdydd sydd bellach yn fyfyriwr yn Ngholeg Caerfyrddin. 3. Fod swyddogion y "gronfa" uchod, ynghyd a Llywydd y Gymdeithas, yn cael hawl mewn achosion eithriadol, os tybiant hynny yn angenrheidiol i wneud "grants" i fyfyrwyr cyn ymgynghori a'r Pwyllgor. 4. Fod y Parch. Lewis Williams a Mr. Josiah Jones, Garth-

owen, i dalu ymweliad a Rhydyparc; eu bod i wneud hynny yn gynar yn yr haf, fel ag i allu dwyn adroddiad i'r Pwyllgor Blynyddol. 5. Fod y Llywydd a'r ysgrifenydd i wneud trefniadau er dewis ymddiriedolwyr ar gapel a mynwent Cwmmawrdu; eu bod i wneud hyn cyn y Pwyllgor Blynyddol. 6. Fod y cyrddau blynyddol i'w cynal yn Llwynrhydowen. 7. Wedi cryn ymdrafodaeth pasiwyd ein bod yn cario ymlaen y paratoadau ar gyfer dwyn allan y llyfr emynau a thonau newydd ar y llinellau presenol, ac ein bod yn gwneud apêl daer ar i Bwyllgor y llyfr gyfarfod yn amlach a cheisio symud yn gyflymach.

PRIODASAU.

YN y Graig, Mercher, Mehefin 11, o flaen y Cofrestrydd, Mr. Noah L. Davies, Pontardawe, a'r Parch. T. V. Evans, Clydach, priodwyd Mr. D. Emrys Davies, Clydach, a Miss Hannah Mary Jones, Trebanos.

MEHEFIN 17, yn Mwlchyfadfa, a cherbron Mr. Tom Jones, Llanarth, y Cofrestrydd, Mr. Thomas John Jones, Gwaillyn, Llanarth, a Miss Rachel Mary Evans, merch ieuengaf Mr. a Mrs. Evans, Blaenaugwenog. Dymunwn iddynt bob daioni.

MARWGOFION.

EBRILL 11, yn 59 oed, bu farw John Morgan Moses, 40 Gladstone Road, Chiswick, Llundain. Mab ydoedd i'r diweddar Eleanor Lloyd, gynt o Bantywilco, plwyf Llanwnen. Pan yn gymharol ieuanc, ymunodd a'r heddlu yn y brif-ddinas: ac yn ddiweddar, ar ol gorffen o honno ei dymor, fe ymneilltuodd i fywyd anghyoedd, gan obeithio cael mwynhau diwedydd hir. Eithr ni chafodd ei ddymuniad; dyryswyd ei gynlluniau gan angeu. Y tro diweddaf y bu ar ymweliad â chymdogaeth ei febyd, fe ellir barnu, o sylwi ar ei agwedd allanol, fod iddo flynyddoedd lawer eto; ac i'r sawl a'i gwelodd y pryd hynny perwyd cryn syndod gan y newydd am ei farw. Y mae llawer o'i gyfoedion ym mhlwyf Llanwnen a'r cylch yn ei gofio'n dda, a chyda pharch; oblegid yr oedd pawb a'i hadnabyddai'n hoff o honno. Nid oes yn aros o'i berthynasau ond ychydig iawn—yr agosaf iddo yw Mr. David Davies a Miss Jane Davies, Panteg, ger Llanbedr, a Mrs. Bowen, Trebanos. Claddwyd ei weddillion yng nghladdfa gyhoeddus Acton, ar yr 16eg o Ebrill, y Parch. Cartwell Robinson yn gwasanaethu. Gadawodd briod a phlant mewn hiraeth dwys ar ei ol.

MEHEFIN 15, Esther, baban i Daniel ac Anne Howells, Rhoslwyn, Cribyn.

EBRILL 14, yn 5 mlwydd a 4 mis oed, Kathleen, geneth James a Maggie Kelly, Hafodybryn, Trebanos. Tuag wythnos cyn ei mar-

wolaeth 'doedd ar Drebanos, nac un dre arall, blentyn iached a hi. Rhyfedd mor sydyn y daeth ei hoes i ben. Os y bu troion annisgwyliadwy erioed yn y byd, dyma un o honynt, yn sicr. Ac y mae amgylchiad o fath hwn, pan y goddiwedda dad a mam, yn un anhawdd tynu trwyddo. Er hynny, gobeithiwn y caiff rhieni, tadcu a mamau Kathleen fach ras i ymfoddloni tan ergyd trymed. Claddwyd y Mercher dilynol yng Nghladdfa Gyhoeddus Trebanos. Gwasanaethodd B. D. Fatherbox ar lan y bedd, ac yn y tŷ gan y Parchn. D. Johns, Gosen ; a D. G. Rees, Graig a Gellionen.

MAI 27, bu farw Charles Jones, Hendryd, plwyf Llanbedr, yn 40 oed, ar ol cystudd o ychydig fisoedd, gan adael tair chwaer a nifer lluosog o berthynasau agos mewn galar ar ei ol. Yr oedd yn ddisgynnydd o dylwyth fu'n trigiannu yn yr Hendryd amryw genhedlaethau, a chyfrifid hwy yn fobl barchus a chyfrifol ; ac yr oedd gair da iddo yntau, fel y clywais amryw'n tystiolaethu yn ystod ei anhwylder ac ar ol ei farw. Nid oedd yn ddyn cyhoeddus ; ymhyfrydai ef, yn hytrach, ym mywyd prysur y fferm. Ond yr oedd yn hoff o gymdeithas ; a chwmni diddan ydoedd mewn cymdeithas. Yr oedd yn ddyn ieuanc o feddwl diwylliedig, ac o syniadau goleuedig a phendant ar bynciau'r dydd ; ac amheuthun oedd treulio ambell i awr yn ei gwmni. Bu yn Drysorydd i gynnulleidfa Capelygroes am yn agos i ugain mlynedd. Cafodd ei dorri i lawr yn gynnar. I'w chwaer a gartrefai gydag ef yn yr Hendryd siom fawr oedd ei golli —iddi hi yn fwy nag i'r chwiorydd eraill am amryw resymau. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Caeronen y Sadwrn dilynol—y cynhebrwng yn anghyoedd ; i'r tŷ yr oedd nifer luosog o gymdogion wedi ymgynnull. Gweinyddwyd yn y tŷ gan y Parch. David Evans, Capelygroes ; yng Nghaeronen gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A., gwnawd cyfeiriad at ei farwolaeth trannoeth yn Nghapelygroes.

MANION AC HANESION.

ARHOLIAD YR YSGOL SUL. — GWELLIANT GWALL. — Dylasai y rhai canlynol basiodd yn Safon III. o'r arholiad uchod fod o dan Alltyplaca, ac nid Caeronen :—Annie Mary Williams, Rachel Elma Griffiths, Mary Anne Davies. Drwg gennym am y camsyniad.

PANTYDEFAID.—Cynhaliwyd Cymanfa flynyddol yr Ysgolion Sul yn y lle uchod Sul, Mai 11, yr hon fu yn llwyddiannus iawn. Holwyd y plant yn hanes Joseph gan Mrs. Thomas, Cilgwynbach, Llandyssul, a'r ysgolion gan Mr. T. G. Thomas, Capelyfadfa. Yn yr hwyr cafwyd dau anerchiad diddorol ac amserol ar waith a dylanwad yr Ysgol Sul, y naill gan Mr. Evan Davies, Rhoslwyn, Talgarreg, a'r llall gan Mrs. Thomas, Cilgwynbach. Yr oedd y canu dan arweiniad Mr. D. Jones, Dolgerdd, a chwareuwyd yr organ gan Miss Evans, Argoed. Gwnaeth pawb eu gwaith yn rhagorol, ynghyd a'r eglwys yn eu croesaw i'r dieithriaid o fewn y pyrth.

CYMANFA GERDDOROL UNDODIAID CEREDIGION. — Cynhaliwyd y Gymanfa uchod yng Ngheinewydd ar yr 4ydd o Fehefin, yng nghapel eang y Methodistiaid Calfinaidd. Bu'r tywydd yn angharedig ar hyd y dydd, fel pe buasai yn dweyd,

"Yr wyf am roi prawf ar frwdfrydedd a sel yr Undodiaid eleni." Beth bynag am hynny, yr oedd y capel eang yn orlawn fore, prynhawn, a hwyr. Cawsom lawer profiad dymunol a hyfryd ar hyd y dydd, ond nid y lleiaf ydoedd y croesaw gwresog estynwyd i ni gan weinidog, diaconiaid, ac eglwys y Tabernacl. Clywsom yn gyfrinachol fod yr unfrydedd llwyraf ymhlith yr holl eglwys wrth roddi i ni y gwahoddiad hwn. Deallwn fod eglwys y Towyn (A.) yn ein disgwyl i'w capel hwy y tro nesaf yr ymwelwn a Ceinewydd. Y mae yr ysbryd caredig, Cristionogol, hwn, yn deilwng o Eglwys Iesu Grist. Nid oes a wnelom a beirniadu y Gymanfa, digon i ni ddweyd ein bod wedi cael gwledd yn yr ystyr oreu. Mr. Hopkin Evans ydoedd yr arweinydd eleni eto, am y pedwerydd blwyddyn yn olynol, a chredwn iddo ragori arno ei hun y tro hwn. Mr. Richard Howells, Aberdâr, ydoedd yr organydd, a gwnaeth yntau ei ran yn ganmoladwy fel arfer. Gofod balla i fanylu ar lawer o bethau dymunol welsom ac a glywsom ar hyd y dydd. Aethom adref o'r Gymanfa a'n syniadau yn uchel am bobl Ceinewydd, a gobeithio fod eu syniadau hwy o honnom ninnau, ar ol bod mor agos atom, yn uwch nag yr oedd o'r blaen. Saif Cymanfa 1924 yn hir yn ein meddyliau a'n cof.

ADRAN YR YSGOL SUL. — Derbyniwyd y symiau a ganlyn:—Cribyn, £1 1s.; Capel-y-Bryn, £1; Bwlchyfadfa, 13s.; Rhydygwin, 11s. 6c.; Aberdâr (Hen-Dy Cwrdd), 10s. Y cyfanswm yn llaw y trysorydd ar Mehefin 23ain, 1224, oedd £20 15s. 2d.—*D. Cledlyn Davies*

CAPEL CILIAU AERON. — Dydd Gwener, y 23ain o Fai, cynhaliodd Cwmsychbant, Cwrtnewydd, Cribyn, Rhydygwin, a Chiliau, eu cymanfa ysgolion flynyddol. Yr oedd yn gymanfa luosog, a hwyl ac ysbryd rhyfeddol yn y gwaith drwy'r dydd. Yr oedd hefyd ôl llafur a pharatoad ar bob ysgol. Nid oedd yr hin yn ffafriol drwy'r dydd, er hynny hapus iawn oedd gweled cynifer o gyfeillion wedi dod ynghyd mor gryno er y gwlaw a'r gwynt. Fe holwyd y gwahanol ysgolion gan weinidogion y dosbarth. Yn yr hwyr cafwyd "Rehearsal" ganu, yn cael ei harwain gan Mr. D. Davies, Llanbedr.

CYFARFODYDD BLYNYDDOL. — Fe'u cynhelir yn Llwynrhydowen tua dechreu Awst. Nid ydym wedi gallu penderfynu y dyddiau eto. Ceir y manylion yn y rhifyn nesaf. —*E. O Jenkins*

GRAIG A GELLIONEN. — Yn y Graig nawn a hwyr Sul, Mai 4ydd, dan nawdd a chefnogaeth deiliaid yr Ysgol Sul, cynhaliwyd dau gwrdd adrodd, canu, chwareu, &c., i gynulliadau da. Cawd hwylusdod ym mhob modd, a phawb yn gwneud y gore posibl. Llywydd y prynhawn oedd Mr. John W. Bowen; cyfeilwyr—Mri. H. H. Morgan, Trebanos, a D. W. Thomas, Gellinudd. Yn yr hwyr Mr. John Hopkin lywyddodd, a chyfeiliwyd gan Mr. Isaac E. Hopkin, Brynderw, ynghyd a'r ddau a enwyd uchod. Gwnaed y rhaglen gan Mr. Hopkin Jones, arolygydd yr Ysgol Sul.

Nid oes neb yn cael y bendro
O achos uwchder lle mae arno;
Edrych lawr ar eraill tano
Gyda dirmyg sy'n ei ddotio.

—*Amnon.*

O ddiffyg gofod gadawyd allan nifer fawr o Farwgofion a Manion ac Hanesion. Cânt ymddangos yn y rhifyn nesaf.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS, LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —